Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Dr Paul Orders
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa'r Iwerydd
Caerdydd
CF10 4UW

30 Tachwedd 2015

Annwyl Dr Orders

**Ymweliad Gwelliant Sylweddol Estyn, 5-9 Hydref 2015**

Yn dilyn canlyniad ymweliad monitro Estyn â'r gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Chwefror 2014, roedd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi o'r farn fod angen gwelliant sylweddol yn yr awdurdod lleol.

Gadawodd Estyn yr awdurdod gyda chwe argymhelliad. Cafodd rhaglen fonitro, fel yr amlinellir isod, ei chytuno gyda'r awdurdod.

**Rhaglen fonitro ffurfiol**

| Gwanwyn 2015 | Hydref 2015 | Gwanwyn 2016 |
|---|---|---|
| A3 - Gwneud yn siŵr bod y trefniadau ar gyfer cyflwyno gwasanaethau gwella ysgolion yn herio ac yn cefnogi pob ysgol yn effeithiol, *er mwyn gwella safonau ar gyfer dysgwyr ym mhob cyfnod allweddol*<br><br>A5 - Gwella prosesau rheoli perfformiad i sicrhau dull cyson wrth gyflawni amcanion<br><br>A6 - Gwella'r craffu ar wasanaethau addysg yr awdurdod lleol a'r gweithio mewn partneriaeth | A2 - Lleihau gwaharddiadau a lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16<br><br>A4 - Gwella effeithiolrwydd y cynllunio ar y cyd ar draws yr ystod gweithio mewn partneriaeth | A1 - Codi safonau, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4<br><br>Cynnydd yn erbyn pob un o'r argymhellion |

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk

Arweiniodd Huw Davies AEM dîm o bedwar arolygydd ar yr ail ymweliad monitro. Canolbwyntiodd yr ymweliad hwn ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion dau a phedwar.

Cynhaliodd y tîm arolygu drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid, cynrychiolwyr partneriaethau ac ymgynghorydd allanol a gomisiynwyd gan y Cyngor.

Bu'r tîm yn craffu ar ddogfennaeth yn cynnwys tystiolaeth ar y cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r argymhellion. Ystyriwyd canlyniadau ganddynt o arolygiadau Estyn o ysgolion yn yr awdurdod. Hefyd, bu'r tîm mewn cyswllt agos â Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar ddiwedd yr ymweliad, adroddodd y tîm ei ganfyddiadau i arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet ar gyfer addysg, cadeirydd y pwyllgor craffu, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg a chynrychiolydd o Lywodraeth Cymru.

## Canlyniad yr ymweliad monitro

### Argymhelliad Dau: Lleihau gwaharddiadau a lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ôl-16

Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau cadarn ac amserol i leihau cyfradd y gwaharddiadau o ysgolion.

Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol yng Nghaerdydd wedi bod yn isel yn hanesyddol. Mae hyn yn dal yn wir, ac mae'n cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill yng Nghymru. At ei gilydd, mae nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol mewn ysgolion uwchradd yn parhau i ostwng, ond mae amrywiadau mawr yng nghyfradd y gwaharddiadau tymor byr rhwng ysgolion uwchradd. Nid oes unrhyw waharddiadau cyfnod penodol o gwbl mewn llawer o ysgolion cynradd, neu ychydig iawn ohonynt. Lle mae gwaharddiadau'n digwydd, maent yn digwydd yn gyffredinol oherwydd natur ddifrifol nifer fach o ddigwyddiadau mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd.

Mae'r awdurdod lleol yn monitro'r lefelau cyffredinol o waharddiadau yn ei ysgolion yn fanwl. Mae uwch arweinwyr yn darparu her addas i ysgolion lle mae lefelau gwaharddiadau yn uchel. Fodd bynnag, mae gwaith i leihau gwaharddiadau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael ei rwystro am nad yw'r awdurdod lleol yn dadansoddi na'n defnyddio data ar waharddiadau yn ddigon trwyadl.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth priodol, gwahaniaethol ar sail dull o leihau gwaharddiadau sy'n cynnwys pum cam. Bu swyddogion yn adolygu camau tri a phedwar o'r dull hwn yn ddiweddar. Mae pob ysgol uwchradd yn derbyn crynodeb o'u cryfderau a'u meysydd i'w datblygu mewn perthynas â darparu cymorth yn yr ysgol (cam 3), a dewisiadau eraill i wahardd, yn cynnwys darpariaeth cwricwlwm cydategol (cam 4). Nododd dogfen 'gorau yn gwneud' gryfderau penodol yn yr

ysgolion.  Mae penaethiaid yn gweld hwn yn ddefnyddiol o ran cael dealltwriaeth well o beth sy'n gweithio'n dda mewn ysgolion uwchradd eraill yng Nghaerdydd.  Fodd bynnag, mae ysgolion yn gyffredinol yn aneglur ynglŷn ag argaeledd darpariaeth arbenigol (cam 5) a sut i gael mynediad iddi.  Nid oes adolygiad ffurfiol wedi'i gynnal o gamau 1, 2 a 5.

Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd wedi rhoi'r model pum cam ar waith yn briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion yn gweithredu'r dull hwn yn gyson ac mae eu cyfraddau gwaharddiadau yn parhau'n uchel.  Cafodd dwy o'r ysgolion hyn eu harolygu gan Estyn yn ddiweddar, a'u rhoi mewn categorïau dilyniant statudol.  O ganlyniad, ymyrrodd yr awdurdod lleol a gwnaeth newidiadau pwysig i lywodraethu ac arweinyddiaeth.  Mae'r awdurdod lleol hefyd wedi ysgogi newidiadau i'r arweinyddiaeth mewn ysgol uwchradd ffederal lle mae nifer y gwaharddiadau yn uchel.

Mae'r rôl y mae uwch arweinwyr mewn addysg yn ei chwarae wrth lywio, deall a hyrwyddo'r gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn aneglur.  Nid oes un strategaeth NEET gyffredinol gan yr awdurdod lleol, sy'n gydlynus, yn blaenoriaethu ffrydiau gwaith ac yn osgoi dyblygu â chynlluniau eraill.

Mae canran y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghaerdydd yn parhau i ostwng.  Er hyn, mae'r awdurdod yn parhau i fod yn un o'r rhai sy'n perfformio waethaf yng Nghymru ac mae'r amrywio ar draws ysgolion yn rhy fawr.  Yn ysgolion Caerdydd yn 2014, roedd pobl ifanc NEET ym Mlwyddyn 11 yn amrywio o 0.4% i 13%.

Er mwyn gwella cyrchfannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, mae'r awdurdod wedi rhoi rhaglen hyfforddeion ar waith yn ddiweddar.  Nod y rhaglen yw darparu medrau a chymwysterau newydd i blant sy'n derbyn gofal.  Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y cynllun hwn ar y deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae pob ysgol uwchradd erbyn hyn yn defnyddio'r proffil asesu bregusrwydd ac mae hwn wedi'i ymestyn i'r uned cyfeirio disgyblion ac ysgolion arbennig.  Mae'r proffil yn cynorthwyo ysgolion i nodi disgyblion sydd mewn perygl o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).  Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o benaethiaid yn glir ynghylch unrhyw strategaeth gyffredinol i leihau pobl ifanc NEET yn yr awdurdod, neu eu rôl yn hyn.

Cafodd dros 300 o ddisgyblion y nodwyd eu bod mewn perygl o fod yn NEET eu cynorthwyo dros dymor yr haf a thrwy gydol gwyliau'r ysgol.  Roedd pobl ifanc yn gallu cael cymorth a chyngor parhaus i'w helpu i sicrhau lleoliadau addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.  Mae'r dull hwn yn dechrau cael effaith gadarnhaol.  Mae data heb ei ddilysu, a ddarparwyd gan yr awdurdod, yn dangos bod fod rhyw 60% o'r disgyblion hyn wedi symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Mae'r holl ddisgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, bellach yn cael mynd ar gyrsiau blasu gyda darparwyr lleol ac maent yn cael gwybodaeth a chymorth mewn perthynas â chyfleoedd cam nesaf.  Mae hyn wedi gwella'r cyrchfannau ychydig ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr.  Fodd bynnag, mae canran gyffredinol y disgyblion

sy’n NEET o uned gyfeirio disgyblion yr awdurdod a’r ysgol arbennig i ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol wedi cynyddu i 35%.

Mae cryn amrywio yn y gyfran o ddisgyblion blwyddyn 12 a 13 o ysgolion sy’n mynd yn NEET. Mewn un ysgol, mae un rhan o bump o ddisgyblion yn NEET ar ddiwedd blwyddyn 13. Yn ddiweddar, mae’r awdurdod lleol wedi dechrau olrhain disgyblion sy’n gadael yr ysgol yn ystod blwyddyn 12 a 13, ac mae’n cydnabod bod hon yn agwedd ar ei waith y mae angen ei datblygu.

Mae’r awdurdod lleol wedi dod ag ystod o bartneriaid at ei gilydd ar ei grŵp strategaeth disgyblion NEET. Mae hyn wedi hyrwyddo dealltwriaeth well o waith ei gilydd ac wedi arwain at atebion creadigol. Er enghraifft, fe wnaeth Coleg Caerdydd a’r Fro ariannu cyrsiau galwedigaethol mewn ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau pontio ar gyfer dysgwyr sy’n gadael darparwyr hyfforddiant wedi gwella, ac mae’r dysgwyr hyn yn cael sicrwydd o ddilyniant i addysg bellach.

Mae gwybodaeth berthnasol am ddata ar waharddiadau ysgol a disgyblion NEET yn cael ei darparu i gynghorwyr her ysgolion o gonsortiwm rhanbarthol Canol De Cymru. Fodd bynnag, nid yw pob un o’r cynghorwyr her yn trafod pryderon ynghylch gwaharddiadau neu ddisgyblion NEET gydag ysgolion. Nid yw’r awdurdod lleol yn sicrhau bod y consortiwm rhanbarthol yn ymdrin â’r agweddau hyn yn ei waith.

**Argymhelliad Pedwar: Gwella effeithiolrwydd y cynllunio ar y cyd ar draws yr ystod gweithio mewn partneriaeth**

Mae Bwrdd Partneriaeth Caerdydd yn darparu ffocws cryf ar weithio ar y cyd ar draws ffiniau sefydliadol. Mae’r partneriaethau amlasiantaeth hyn yn ceisio cydgyfrannu adnoddau a chysoni gwasanaethau yn fwy effeithiol er mwyn mynd i’r afael â’r heriau allweddol sy’n wynebu’r ddinas.

Erbyn hyn, mae dull mwy strategol o adeiladu diwylliant o weithio mewn partneriaeth, lle mae partneriaid yn gweithio’n agosach i wella lles er mwyn mynd i’r afael â thangyflawni. Drwy ei Fwrdd Datblygu Addysg a’i Fwrdd Rhaglen Plant a Theuluoedd sy’n Agored i Niwed, mae’r awdurdod wedi rhoi strategaethau clir ar waith i fynd i’r afael â blaenoriaethau a ddeellir yn dda. Mae’r rhain yn cynnwys strategaethau i wella presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad pobl ifanc mewn ysgolion, er bod y llythyr monitro hwn yn nodi bod materion yn parhau ynglŷn â’r strategaeth ar gyfer disgyblion NEET ac agweddau ar ymddygiad. Mae’r Bwrdd Rhaglen Plant a Theuluoedd sy’n Agored i Niwed a ad-drefnwyd yn ddiweddar yn darparu trefniadau llywodraethu priodol i gefnogi cyflwyno rhaglenni partneriaeth fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau’n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Yn benodol, mae’r rhaglenni hyn yn helpu sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt gan eu teuluoedd.

Mae gwaith y chwe phartneriaeth cymdogaeth yng Nghaerdydd wedi gwella gallu’r awdurdod i gynnig gwasanaethau amlasiantaeth effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni deilliannau gwell. Un nodwedd bwysig yw’r defnydd gwell o ddata ar ddeilliannau i arfarnu effeithiolrwydd cyflwyno gwasanaethau, er enghraifft trwy fesur

y gwelliannau mewn presenoldeb ysgolion. Mae'r dull hwn yn helpu swyddogion i resymoli a nodi bylchau mewn darpariaeth ac i leihau dyblygu.

Mae cysylltiadau a pherthnasoedd gweithio gwell o lawer rhwng swyddogion ac ysgolion sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth well o rolau priodol, disgwyliadau gan y ddwy ochr ac atebolrwydd. Mae'r awdurdod yn ymgynghori ag ysgolion yn fwyfwy effeithiol. Yn sgil y newid hwn mewn diwylliant, ceir ymgysylltu gwell rhwng yr awdurdod a'i ysgolion. Mae penaethiaid yn ystyried eu bod yn cael gwybodaeth dda, maent yn cymryd rhan mewn trafodaeth adeiladol gyda swyddogion ac yn cyfrannu'n fwy uniongyrchol at nodi blaenoriaethau'r awdurdod. Yn benodol, mae'r Fforwm Cyllideb Ysgolion yn gweithredu'n effeithlon mewn hinsawdd ariannol heriol i helpu pennu dyraniadau cyllideb a dylanwadu ar y graddau y mae cyllidebau'n cael eu dirprwyo i ysgolion. Ceir pwyslais cadarn ac ymrwymiad ar y cyd i ddatblygu gallu ysgolion yng Nghaerdydd i arwain a chefnogi'u gwelliant eu hunain.

Mae perthnasoedd gweithio rhwng yr awdurdod lleol a'i gonsortiwm rhanbarthol wedi'u cryfhau gryn dipyn. Mae aelodau etholedig a swyddogion yn chwarae rhan weithgar ac adeiladol mewn llywodraethu'r consortiwm. Mae hyn wedi helpu sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion a ddarperir gan y consortiwm yn bodloni anghenion yr awdurdod yn fwy effeithiol; er enghraifft, mae ymgysylltu cadarnhaol ymhlith ysgolion mewn ystod o drefniadau rhwydweithio, fel grwpiau gwella ysgolion, i hyrwyddo arfer orau a chryfhau gallu o fewn ysgolion i wella'u hunain. Mae penaethiaid o'r farn fod mwy o gadernid erbyn hyn yn y graddau y mae ysgolion yn cael eu dwyn i gyfrif am ansawdd eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod wedi sicrhau bod pob un o'r cynghorwyr her o'r consortiwm rhanbarthol yn canolbwyntio'n ddigon da ar flaenoriaethau penodol yr awdurdod lleol, fel y lefel gwaharddiadau a disgyblion NEET.

Drwy'r Bwrdd Datblygu Addysg, mae'r awdurdod yn sefydlu partneriaethau agosach gydag addysg uwch a'r gymuned busnes a menter, er enghraifft i ehangu cyfleoedd addysgol a chyflogaeth i fyfyrwyr ôl-16 a gwella galluoedd cyrff llywodraethol. Er ei bod yn ddyddiau cynnar ar lawer o'r datblygiadau hyn, mae ganddynt y potensial i helpu darparu llwybrau arwahanol i bobl ifanc fynd i mewn i gyflogaeth neu hyfforddiant a gwella arweinyddiaeth ysgolion.

Un fenter arbennig o werthfawr gan y Bwrdd Cymunedau Diogel a Chydlynus fu'r bartneriaeth gyda Prevent[1]. O ganlyniad, mae hyfforddiant codi ymwybyddiaeth wedi'i ddarparu i bob ysgol gynradd bron. Mae'r cwricwlwm 'cyd-dynnu â'n gilydd / getting on together' yn weithredol ym mhob ysgol uwchradd ac yn fodd i herio pob math o eithafiaeth ac yn helpu gwella cydlyniant cymunedol yn y ddinas. Mae'r gwaith hwn yn helpu llywio arfer ledled y Deyrnas Unedig.

At ei gilydd, mae gwelliannau mewn gweithio mewn partneriaeth yn cyfrannu at ddeilliannau gwell mewn ysgolion. Dros y cyfnod 2013-2015, bu gwelliant o ryw naw

[1] Strategaeth y Swyddfa Gartref yw Prevent i atal pobl rhag "cael eu radicaleiddio a'u denu i mewn i derfysgaeth". Cyhoeddir arweiniad dyletswydd Prevent o dan adran 29 Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015. Er Gorffennaf 2015 mae'n rhaid i awdurdodau penodedig, gan gynnwys ysgolion yng Nghymru a Lloegr, ystyried yr arweiniad hwn wrth gyflawni'r ddyletswydd.

pwynt canran yng nghyfran y disgyblion yng Nghaerdydd sy'n cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg a mathemateg.  Yn ystod yr un cyfnod, bu gwelliannau hefyd yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni Dangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2.  Er na wnaeth lefelau presenoldeb uwchradd wella yn 2014-2015, mae cynnydd hanesyddol o flynyddoedd blaenorol wedi'i gynnal.  Fodd bynnag, mae'r awdurdod wedi bod yn llai effeithiol yn gweithio gyda phartneriaid i leihau gwaharddiadau a chynyddu cyfran y bobl ifanc sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

**Camau nesaf**

Bydd eich arolygwyr cyswllt yn trafod yr amseru a'r gwaith paratoi sydd eu hangen ar gyfer yr ymweliad terfynol gyda chi.  Cynhelir hwn yn nhymor y gwanwyn 2016 a bydd arolygwyr yn barnu'r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o'r chwe argymhelliad.  Bryd hynny, bydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi yn penderfynu p'un a oes angen gwelliant sylweddol ar yr awdurdod lleol o hyd.

Byddwn yn ddiolchgar be baech yn cadarnhau manylion cyfarfod nesaf y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc fel ein bod yn gallu adrodd canfyddiadau'r ymweliad monitro hwn yn ôl.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Lywodraeth Cymru ac at Archwilydd Cyffredinol Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

Cc:	Llywodraeth Cymru
	Archwilydd Cyffredinol Cymru